

## MIDDLETON (MYDDELTON), WILIAM (c. 1550 - c. 1600), bardd, milwr, a morwr

**Enw:** Wiliam Middleton  
**Dyddiad geni:** c. 1550  
**Dyddiad marw:** c. 1600  
**Rhiant:** Ffowc Middleton  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd, milwr, a morwr  
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Barddoniaeth  
**Awdur:** Griffith John Williams

mab Ffowc Middleton o Archwedlog yn Llansannan. Dywedir yn gyffredin iddo fod ym Mhrifysgol Rhydychen, ond ni ellir profi hynny. Bu yng ngwasanaeth **Henry Herbert, iarll Pembroke**, ac yn 1575 canodd awdl farwnad i **Gatrin, iarlls Pembroke**. Yn 1585-6, bu gydag iarll Leicester yn ymladd yn erbyn y Sbaenwyr yn yr Iseldiroedd, a dywedir ei fod yn y frwydr pan laddwyd **Syr Philip Sidney**. Ac yn ôl pob tebyg, yr oedd yn un o'r llu a yrrwyd i Portugal yn 1589, gyda'r amcan o roddi Don Antonio ar yr orsedd. Wedi iddo ddychwelyd, ymddengys iddo wasnaethu ei frenhines ar y môr, ac enill enw iddo ei hun fel morwr dewr. Dywedwyd mai ef oedd y 'Captaine Middleton' a anfonwyd yn 1591 gan iarll Cumberland (yr hwn oedd gyda'r llynges yn ymyl traethau Portugal) i rybuddio'r arglwydd Thomas Howard, a oedd yn disgwyl llongau trysor Sbaen wrth ynysoedd Azores, fod llynges gref yn hwylio i ymosod arno. Yna bu'r frwydr enwog rhwng y llong *Revenge* a llynges Sbaen. Ond ni ellir profi mai'r bardd ydoedd hwn gan fod amryw gapteiniaid eraill yn dwyn yr enw Middleton. Anodd olrhain ei gamre wedi hyn. Yr oedd yn India'r Gorllewin yn 1596, a gellir bwrw mai ar y môr y bwriodd y rhan fwyaf o'i amser yn y cyfnod hwn. Bu farw rywbryd cyn 1603, oherwydd cynhwyswyd marwnad iddo yn y *Psalmae* a gyhoeddwyd y flwyddyn honno.

Y mae Wiliam Middleton yn enghraifft dda o uchelwr diwylliedig yng nghyfnod y Dadeni. Dysgodd gelfyddyd cerdd dafod yn ei ieuentid, ac yn 1593-4 cyhoeddodd lyfr yn disgrifio'r gelfyddyd honno, sef *Barddoniaeth, neu brydydhiaeth*. Nid ei disgrifio yn null y penceirddiaid a wnaeth, eithr egluro'r prif hanfodion fel y gallai pob gŵr bonheddig o Gymro ymarfer â hi. Mynnai greu yng Nghymru yr un math o fywd llenyddol ag a welid yng ngwledydd eraill gorllewin Ewrop yn yr oes honno. Ceir awdlau a chywyddau ac englynion o'i waith yn y llawysgrifau, ac yn 1603 cyhoeddodd **Thomas Salesbury** ei gyfieithiad o'r Salmuau ar fesurau'r penceirddiaid, *Psalmae y Brenhinol Brophwyd Dafydd*. Cafwyd gafael hefyd ar ddarn o lyfr arall o'i waith wedi ei argraffu tua 1595, a gynhwysai rai o'r salmau yn ogystal â chywyddau. Yr oedd yn un o'r beirdd Cymraeg cyntaf i edrych ar yr argraffwasg fel cyfrwng i ledaenu ei weithiau. Y mae Wiliam Middleton, felly, yn ffigur pwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg yn ail hanner yr 16eg ganrif.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Griffith John Williams**, (1892 - 1963)

### Ffynonellau

*Barddoniaeth neu Brydyddiaeth* (1930). 1930, 1-45

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, iv, 257-61

*The Denbighshire Society in London Handbook* (1937-8), 1937-8, 27-41

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Wiliam Middleton](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 18422304

Wikidata: Q8002410

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Erfrannu

Arddull APA

x

Williams, G. J., (1953). MIDDLETON (MYDDELTON), WILIAM (c. 1550 - c. 1600), bardd, milwr, a morwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MIDL-WIL-1550>

Erfrannu

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn eiddo gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government